

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Medi 2017

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: POLISI

Teitl: Rheoli gofal babanod sy'n cael eu geni ar y trothwy goroesi

Dyddiad dod i ben / Adolygu: Hyd nes y clywir yn wahanol

I'w weithredu gan: Byrddau Iechyd ac
Ymddiriedolaethau'r GIG

Angen gweithredu erbyn: I gael effaith ar unwaith

Anfonwyd gan:

Dr Frank Atherton, Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol

Enw(au) Cyswllt HSSG yn Llywodraeth Cymru:

Jonathan Williams, Y Gangen Iechyd Plant, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, Ffôn: 03000251428 ChildHealth@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Crynodeb

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd Hwn yw egluro'r sefyllfa'n glir o ran rheoli babanod sy'n cael eu geni yn gynnar ac sydd ar y trothwy goroesi.

Cam gweithredu

2. Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer rheoli gofal babanod sy'n cael eu geni yn gynnar ac sydd ar y trothwy goroesi hyn bodloni gofynion y canllaw hwn.

Cefndir

3. Pan fo babi yn cael ei eni yn gynnar iawn, mae penderfyniadau anodd a all beri gofid yn wynebu rhieni a'r gweithwyr proffesiynol. Diolch i ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth feddygol mae gofal i fabanod sy'n cael eu geni yn gynnar iawn, yn enwedig cyn cyfnod beichiogrwydd o 26 wythnos, wedi gwella. Er hynny mae pen draw i'r hyn sydd yn bosib o ran goroesi. Hyd yn oed pan mae babanod bychain iawn yn cael eu geni'n fyw, efallai na fedrant gael eu dadebru oherwydd bod eu pibell aer a'u hysgyfaint yn rhy anaeddfed a brau i wrthsefyll pibell i gynnal yr aer, a bod eu gwythiennau yn rhy fach i allu rhoi hylifau a meddyginiaethau iddynt.

Canllawiau proffesiynol

4. Mae'r grŵp proffesiynol gydag arbenigedd mewn gofalu am fabanod sydd wedi eu geni'n gynnar, Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM), wedi adolygu eu canllaw a gyhoeddwyd yn 2008: 'Management of babies born extremely preterm, a framework for clinical practice'¹. Mae BAPM wedi cadarnhau, ar ôl ystyried ymchwil diweddar, bod y canllaw hwn yn parhau yn gyfredol ac nad oes cynlluniau i'w ddiwygio yn y dyfodol agos.
5. Mae BAPM o'r farn bod y dystiolaeth gyfredol yn dangos nad yw'n argoeli'n dda i fabanod sy'n cael eu geni wedi llai na 23 o wythnosau a bod cynnig gofal dwys newyddenedigol yn fewnwithiol, ac yn debygol o hwyhau'r boen. Credir y byddai hyn yn aneffeithiol hefyd, felly mae'n amhriodol. Hefyd, mae BAPM wedi egluro, o gofio bod lwfans ansicrwydd posibl o ychydig ddyddiau ar fesur hyd y cyfnod beichiogrwydd, os oes unrhyw gwestiwn ynghylch a all babi fod yn fwy aeddfed, dylai'r tîm mamolaeth ymgynghori â'r tîm newyddenedigol neu'r tîm pediatrig lleol (yn dibynnu ar trefniadau lleol), i gynghori neu i asesu'r baban, yn unol â'r canllawiau.

Y goblygiadau ymarfer i Gymru

6. Pa le bynnag y mae babanod yn cael eu geni yng Nghymru, bydd pediatregydd ymgynghorol neu neonatolegydd yn gyfrifol am ofal, yn arwain tîm o fewn ardal awdurdod lleol, ar alwad drwy'r amser.
7. Pan mae disgwyl i fabi gael ei eni'n gynnar ar y trothwy goroesi, neu pan fo hynny'n digwydd, dylai timau mamolaeth ymgynghori â'r timau

pediatreg neu'r timau newyddenedigol sydd ar alwad (cyn i'r babi gael ei eni os yw hynny'n bosib), i sicrhau bod yr asesiadau clinigol yn cael eu cynllunio a'u cynnal, a bod penderfyniadau unigol yn cael eu gwneud yn defnyddio crebwyll clinigol mewn partneriaeth sensitif â'r teulu². Dylai timau newyddenedigol neu dimau pediatreg gynnig cyngor i dimau mamolaeth, neu gynnig ymgynghoriad neu asesiad unigol gan y clinigwr mwyaf priodol, yn unol â chanllawiau BAPM³.

8. Pan fo asesiad a phenderfyniad yn dod i'r casgliad mai gofal lliniarol a gofal cysur yw'r camau priodol i'w cymryd, dylid cynnig hyn yn unol â chanllawiau a gymeradwywyd gan BAPM⁴.

¹ [The Management of Babies Born Extremely Preterm at less than 26 weeks of gestation: a Framework for Clinical Practice at the Time of Birth](#) (Cymdeithas Brydeinig ar gyfer Meddygaeth Amenedigol 2008).

² RCN 2013 https://my.rcn.org.uk/_data/assets/pdf_file/0006/545289/004471.pdf.

³ [Neonatal support for Stand Alone Midwifery Led Units \(MLUs\): a framework for practice](#) (Cymdeithas Brydeinig ar gyfer Meddygaeth Amenedigol).

⁴ [Practical guidance for the management of palliative care on neonatal units](#) (cymeradwywyd gan BAPM) (2014).